**27.05.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; DP; JOJ; AR<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DM; BJ; GW; DL; EO;<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng. John Griffith |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DW ddiddordeb yn unrhyw drafodaeth bellach ar gyflog y Clerc.<br><br>Croesawyd Cyng J G i'r cyfarfod gan nodi balchder ei fod wedi gwella digon i fynychu a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.<br>Llongyfarchwyd y Cadeirydd (JAJ) ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.<br>Llongyfarchwyd Cyng TAJ ac EO ar ddod yn Deidiau unwaith eto. Dymunwyd yn dda i'r ddau deulu bach.<br>Llongyfarchwyd TAJ a Mrs Jones ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. |
| **3** | **Cofnodion 25.03.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 29 Ebrill 2021 fel rhai cywir (DW/DP)<br>b) Materion yn codi<br>Sedd Wag.<br>Adroddodd y Clerc bod Donna Mlynarczyk wedi cytuno i dderbyn y sedd gydag adolygiad pellach yn dilyn sefydlu ei swydd newydd a goblygiadau hyn ar ei hamser i fynychu.<br>Lightsource – Fferm Môn Solar |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG**
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Adroddod y Clerc bod trefniadau ar y gweill i'r Cwmni drefnu cyfarfod ZOOM uniongyrchol gyda CC Llan i drafod y brosiect. Mae Cyngor Cymuned Llanfechell am ymuno a'r cyfarfod.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 27.05.21 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**TAJ -** cyfeiriodd at reiliau rhydd ger safle Capel Jeriwsalem - GW i drefnu eu diogelu.<br><br>- Nododd bod y giât o faes chwarae Glan Menai i safle'r Stesion angen clesbyn colfachog (hinged clasp) er mwyn rhwystro rhai bach rhag rhedeg i lwybr ceir ym maes parcio'r Stesion. GW i weithredu.<br><br>**RJ** - nododd bod y rhithoedd ger y Gofeb bellach wedi eu clirio a'r cerrig addurniadol wedi ei dychwelyd i'r Ysgol. Cytunodd JAJ i gadarnhau safon y cerfluniau 'Tommy' ger cofeb Penysarn a nodi geiriad y neges oddi tanynt, yna Clerc i archebu fel yn briodol.<br><br>**DW** - cyfeiriodd at osod llinellau gwyn ar y ffordd drwy'r Stryd Fawr hyd at Bryncir - Clerc i gysylltu ag Alun Roberts<br><br>**JOJ** - cadarnhaodd y Clerc bod y Cyngor Cymdeithas bellach yn talu am dorri mynwent Carmel a bod y gwaith wedi ei ychwanegu at gytundeb Rhys Williams<br><br>**DP** - nododd bod llechen rydd ar do Eglwys Ceidio. Nododd y Clerc ei bod wedi cael gwybod bod ffenest wedi ei thorri yno hefyd a bod GW wedi gosod darn o bren i'w amddiffyn dros dro. Cytunwyd i ychwanegu hyn ar restr waith GW<br><br>**JG -** cafwyd adroddiad fel a ganlyn gan Cyng. JG am y Ffermydd Solar arfaethedig ar yr Ynys a phwysleisiodd mai ei farn bersonol ydyw.<br><br>*Y Cefndir : Fel Ynys Ynni, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod datblygiadau ffermydd solar yn cyfrannu tuag at darged "net zero" genedlaethol erbyn 2050. Yn fwy lleol, gyda'r Cyngor yn datgan argyfwng hinsawdd ym Medi 2020 rydym yn anelu i gyrraedd statws carbon niwtral erbyn 2030.*<br><br>*Cyn belled ag mae trefn ceisiadau am Ffermydd Solar yn y cwestiwn, bydd rhaid eu cyflwyno i'r Adran Cynllunio os ydynt o dan 10 mw a lle bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu arnynt.*<br><br>*Er bydd y datblygwr yn ymgynghori gyda'r Cyngor Sir a'r cymunedau perthnasol, bydd ceisiadau sy'n cynhyrchu rhwng 10mw a 350 mw o ynni yn cael eu hystyried fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (Development of National Significance) (DNS). Cyflwynir cais o'r math i Arolygaeth Cynllunio Cymru yng Nghaerdydd gyda gweinidogion y Llywodraeth yno yn penderfynnu.*<br><br>*Cyflwynir ceisiadau dros 350 mw (National Significant Infrastructure Project/* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | *NSIP) i'r Arolygaeth Cynllunio lle fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llundain yn penderfynnu.*<br><br>*Yn fy marn i fydd rhaid sicrhau'r balans cywir i osgoi effaith cronnol ac andwyol o'r fath datblygiadau ar ein cymunedau ac ar yr amgylchedd. Bydd y Cyngor yn ymateb yn fanwl ar geisiadau o'r fath i gadarnhau eu bod yn cynnig budd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd fel rhan o Adroddiad Effaith Lleol i'r proses DNS.*<br><br>*Mae prosiectau DNS Ffermydd Solar mwy diweddar yn cynnwys :-*<br><br>*1. Rhyd y Groes/Porthwen yn enw EDF Energy, 49.9mw. Cafwyd hawl cynllunio ym Mawrth 2018 ond heb gychwyn gosod y paneli solar eto. Budd cymunedol - £10,000 y flwyddyn/£300,000 dros oes y prosiect.*<br><br>*2. Traffwll yn ardaloedd ger RAF Y Fali, Bryngwran, 30mw. Disgwyl y byddent yn cychwyn ar y proses ymgynghori yn fuan.*<br><br>*3. Fferm Solar Môn gyda Lightsource BP yn ardaloedd Rhosgoch, ger Llyn Alaw ac i'r dde o Lannerchymedd, 350mw. Mewn trafodaethau cychwynnol hefo'r Cyngor Sir.*<br><br>*4. Alaw Môn/Enso Energy yn ardaloedd Llyn Alaw, Llantrisant, Carmel a Llannerchymedd, 160mw - mewn paratoadau cynnar. Bwriad ganddynt i gynnal ymgynghoriad lleol anffurfiol yn ystod yr Haf i ddarganfod barn leol ac un ffurfiol am 6 wythnos yn yr Hydref ar gynigion manwl.*<br><br>Cyfeiriodd hefyd at Gronfa Grant Adfywio Gogledd Ynys Môn gan Awdurdod Dad-gomisinu Niwclear (NDA) a bod dau gylch taliad mewn lle am £17.5K yr un. Dyddiad cau - 2.7.21. Nododd y Clerc y byddai yn holi am gymorth i wella adnoddau Tan y Foel.<br><br>**JAJ** - cyfeiriodd at Gae Parc a bod y ffensys wedi malu rhwng y ddau gae. Nododd y Clerc ei bod wedi cofrestru cais i drwsio hefo CSYM ond heb dderbyn ateb eto. Nodwyd mai Adran Man Ddaliadau fuasai'n gyfrifol a chytunodd JG i ddilyn i fyny.<br><br>- Nododd bod set yn ddiffygiol ym maes chwarae Glan Menai ond bod un newydd wedi ei harchebu a'i gosod.<br><br>- Nododd bod diffyg ar dop y 'cantilever swing' a bod trefniadau mewn llaw i gwmni ei harchwilio.<br><br>- Adroddodd bod gwaith clirio ymylon llwybrau'r fynwent i'w wneud a holodd am unrhyw gymorth i wneud y gwaith.<br><br>- Adroddodd bod diffyg yn y wal ar y ffordd i'r Fynwent (dros y ffordd i Faes Athen) Cytunodd DP i sbïo ar y gwaith a holi Trefor Rowlands am gymorth. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Holwyd am sefyllfa Clwb Snwcer. Adroddodd TAJ bod Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi ail-gynnull ac mai cyfrifoldeb y Pwyllgor hwnnw yw dyfodol y Clwb. Cytunodd TAJ i geisio trefnu cyfarfod mor fuan â phosib fel bo amodau COVID yn caniatáu. Hefyd, cytunodd i holi Penaethiaid eraill yr Ynys oedd mewn sefyllfa debyg. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ebrill**<br>• 360 Ground Care Ltd – gwaith cynnal a chadw Cae Peldroed - £1296 (gyda ad-daliad gan y CPD o £1080 – TAW £216<br>• Carolyn Owen – taliad am 50 Te Prynhawn drefnwyd gan Cyng BJ yn rhan o weithgaredd grant COVID 19 - £500<br>• G L Jones – gosod cadair crud newydd ym maes chwarae Glan Menai - £183.18<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>• Scottish Power – Uned 1 53.51 a Goleuadau Nadolig £37.92<br>• CSYM rhent blynyddol Glan Menai - £34.74<br>• Dragon Fire – archwiliad cyfarfpar tân - £92.78<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol gyfredol. Trafodwyd taliad i Eryl Williams am ei waith yn coladu'r cyfrifon. Nododd y Clerc ei fod wedi cofnodi 10 awr o waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y Clerc wedi rhannu gwybodaeth eisoes oddi ar y We parthed graddfa cyflog yr awr i berson llawrydd – hwn yn amrwyio o £15 - £30 yn ddibynol ar y manyldeb gwaith. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd yn unfyrdol i dalu'r cydnabyddiaeth ganlynol, sef ffi o £150.<br><br>Arian i law trwy CSYM yn daliad am logi stafell y Stesion ar gyfer Safle Pleidseisio. Cytunwyd i drosglwyddo'r taliad sef £150 i'r Rheolwr Carolyn Owen |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>**Cais HHP/2021/40 – Penal Ffordd Caergybi Llannerchymedd**<br>Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cais uchod. |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Cyflog Clerc.** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Ymhellach i drafodaethau ar yr uchod yng nghyfarfod mis Mawrth eleni eglurodd y Clerc ei bod bellach wedi cwblhau manylder ffigyrau y penderfyniadau gydag arbenigedd Mr Eryl Williams. Roedd y Clerc yn teimlo'n gryf y dylid rhannu'r ffigyrau hyn gyda'r aelodau gan nad oeddynt i law ym mis Mawrth.<br><br>*Bu i'r Clerc a'r Cyng DAW adael y cyfarfod.*<br><br>Yn dilyn trafodaeth galwyd y Clerc yn ôl i'r cyfarfod. Adroddodd y Cadeirydd bod y penderfyniad gwreiddiol (fel a nodwyd yng nghofnodion mis Mawrth) yn sefyll a hyny'n unfrydol . Diolchwyd i'r Clerc am ei holl waith ac yn arbennig am ei hystyriaeth briodol yn dwyn y mater hwn i sylw'r aelodau er mwyn sicrhau trylowyder a didwylledd y cyfrifon.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.10* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383